

# Cyngor Cymuned Llanycil

## Adroddiad Bioamrywiaeth 2019

Yn ddaearol mae Plwyf Llanycil yn cwmpasu ardal o lan Llyn Tegid i'r Arennig Fawr, a thrwy ganol Llyn Tryweryn, a gronnwyd yn y chwedegau i gyflenwi dinas Lerpwl, i gyffiniau tref Y Bala. Mae'r gair Llanycil yn dod o'r llanyn y gongl (cil) megis hen eglwys blwyf Y Bala, a Beuno yw ei Mabsant. Adnodd mwyaf gwerthfawr y plwyf yw Llyn Arenig sydd yn cyflenwi dŵr yfed i drigolion Penllyn a darnau o Edeyrnion.

Poblogaeth denau a gwasgaredig a geir yn y plwyf bellach gyda dau bentref bach sef Rhyduchaf a'r Parc, a chlwstwr bychan o dai yn Llidiardau a'r Arenig o fewn ei thiriogaeth. Ar un adeg bu dwy ysgol gynradd yn y Plwyf sef Ysgol Maesywaen a gaewyd yn niwedd y chwedegau pan agorwyd ysgol newydd Bro Tryweryn yn y Frongoch ac Ysgol y Parc a gaewyd yn 2013. Mae'r Ysgol Bro Tryweryn yn cymryd rhan yn y rhaglen addysg amgylcheddol Eco-Sgolion ac wedi derbyn baneri gwyrdd am eu hymdrechion.

Amaethyddiaeth yw'r prif gyflogwyr yn yr ardal, ond yn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd chwarel brysur ar lethrau'r Arenig a thros ddau gant o weithwyr yno. Mae nifer sylweddol yn teithio allan o'r ardal i amrywiaeth o swyddi. Gellir dweud fod trigolion Llanycil yn ddiwylliedig iawn, ac adlewyrchir hyn yn y bwrlwm cymdeithasol a geir yn y gwahanol gymdeithasau sydd yn defnyddio'r ddwy neuadd a'r tri chapel o fewn y plwyf yn wythnosol.

Yng nghyfrifiad 2011 yr oedd y boblogaeth yn 416 ac roedd 323 o etholwyr ar y rhestr gyfredol. Praesept y Cyngor yw £4,000.

Mae Cymuned Llanycil yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri gydag amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Mewn cydweithrediad a'r Parc mae nifer fawr o lwybrau cyhoeddus yn cael eu cynnal a chadw sy'n darparu mynediad i deithiau cerdded hamdden ar hyd yr ardal.

Mae amrywiaeth o gynefinoedd: mynyddoedd, mawndir, ffriddoedd, coedwigoedd a fforest, tir gwastad a dolydd, gorlifdir, afonydd, llynnoedd. Mae rhan fach o'r Cyngor Cymuned yn rhan o ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r amaethwyr, gyda chyngor gwahanol gynlluniau Llywodraeth Cymru a'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu'n sylweddol iawn at gynnal bioamrywiaeth yr ardal.

Nid ydi'r Cyngor Cymuned yn berchen ar unrhyw dir agored, caeau chwarae na mynwentydd ond yn cydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynghlŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd sy'n annog bioamrywiaeth. Er mwyn gwarchod adar sy'n nythu ni thorri'r gwrych na'r coed rhwng y 1af o Fawrth a 1af o Fedi.

## Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	- Wrth ymateb i geisiadau cynllunio - wrth ymwneud a phrosiectau'r Cyngor - wrth bwrcasu	Cyngor
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Cyd-weithio gyda'r ysgol gynradd leol Ysgol Bro Tryweryn. Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri.	Cyngor
-diogelu'r prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Gofalu bod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau gwarchod Parc Cenedlaethol Eryri. Chydweithio ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheoli ochr ffyrdd mewn ffordd neith annog bioamrywiaeth a bod gwrychoedd a choed ddim yn cael eu torri rhwng 1af o Fawrth a 1af o Fedi.	Cyngor
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Annog a chefnogi unrhyw brosiectau lleol amgylcheddol perthnasol.	Cyngor
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Ail gylchu gwastraff.	Cyngor
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	Hyrwyddo gwaith Parc Cenedlaethol Eryri drwy arddangos eu posteri ayyb yn ein neuaddau cymunedol.	Cyngor
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Cefnogi gwaith amaethwyr, gwaith Parc Cenedlaethol Eryri a Sioe Amaethyddol a Arddwriaethol Maesywaen.	Cyngor

### Arolwg o ddyletswydd Adran 6

Monitro parhaus  
Arfarniad yn Rhagfyr bob blwyddyn

Bethan Jones  
Clerc Cyngor Cymuned Llanycil  
01/12/19
